GWASANAETH GWIRFODDOL CYMUNEDOL CASTELL-NEDD PORT TALBOT



PECYN AELODAETH

MANTEISION AELODAETH

CASTELL-NEDD PORT TALBOT CVS NEATH PORT TALBOT



P'un ai os ydych chi'n grŵp gwirfoddol sy'n dechrau arni, neu'n elusen neu fenter gymdeithasol sydd wedi ennill ei phlwyf, bydd bod yn aelod o GGC Castell-nedd Port Talbot yn eich helpu i gefnogi, hybu a datblygu eich sefydliad. Gallwn roi cyngor a gwybodaeth am wirfoddoli, cynnig arweiniad am lywodraethiant da, eich cefnogi gyda chyllido cynaliadwy a sicrhau y gall eich sefydliad ymgysylltu'n effeithiol â'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau, a dylanwadu arnynt.

Waeth pa mor fawr neu fach yw eich sefydliad trydydd sector, gyda'n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth go iawn yng Nghastell-nedd Port Talbot. Dyma rai yn unig o fanteision dod yn aelod o GGC Castell-nedd Port Talbot.

GWYBODAETH A CHYNGOR

Datblygu a Rhedeg Mudiad Gwirfoddol – mae ein Tîm Datblygu Cymunedol ar gael i'ch cefnogi i:

- Sefydlu eich grŵp gwirfoddol, elusen neu fenter gymdeithasol gyda'r strwythur cyfreithiol addas.
- Ymgysylltu â'r gymuned leol a rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu cynlluniau eich prosiect.
- Roi cefnogaeth i gael mynediad i Cyllido Cymru ac adnoddau eraill i amlygu darpar gyfleoedd cyllido.
- Mesur effaith eich gwaith, a chwblhau cofnodion blynyddol.



Recriwtio a Rheoli Gwirfoddolwyr – gall ein Canolfan Wirfoddoli helpu eich sefydliad i:

- Ddatblygu polisïau a gweithdrefnau gwirfoddoli effeithiol.
- Hybu cyfleoedd i wirfoddoli drwy lwyfan ar lein Gwirfoddoli Cymru yn ogystal â thrwy sianelau cyfathrebu eraill GGC Castell-nedd Port Talbot.
- Recriwtio gwirfoddolwyr a rhoi mwy o amrywiaeth i'ch pwll o wirfoddolwyr.
- Cryfhau'r gwaith o ddatblygu arfer dda wrth reoli gwirfoddolwyr.
- Hybu a dathlu gwirfoddoli yng Nghastell-nedd Port Talbot.

ADDYSG A DATBLYGU

- Cewch eich blaenoriaethu wrth archebu ar gyfer rhaglen hyfforddi graidd GGC Castell-nedd Port Talbot.
- Darparu sesiynau hyfforddi mewnol wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer eich sefydliad.
- Cefnogaeth i ddefnyddio detholiad eang o adnoddau a phecynnau offer defnyddiol, gan gynnwys templedi polisi a gweithdrefnau drwy gyfrwng yr Hwb Gwybodaeth.



RHWYDWEITHIO A CHYFATHREBU

- Cewch fynediad at rwydweithiau a digwyddiadau GGC Castell-nedd Port Talbot i gysylltu a chydweithio ag eraill ar draws sectorau.
- Cyfleoedd ar gyfer dysgu, rhannu a gweithio mewn partneriaeth.
- Cewch e-gylchlythyr misol yn cynnwys newyddion, diweddariadau am gyllid, ac unrhyw hyfforddiannau a digwyddiadau sydd i ddod.

RHOI FFURF AR GYFALAF CYMDEITHASOL A GWYTNWCH Y SECTOR, DYLANWADU ARNO A'I ADEILADU

CASTELL-NEDD PORT TALBOT CVS NEATH PORT TALBOT

- Gwahoddiad i gyfarfodydd a digwyddiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol gyda rhanddeiliaid allweddol ar draws sectorau, gan ddarparu cyfle i ddylanwadu ar gyrff statudol a chyd-gynhyrchu gwasanaethau cyhoeddus.
- Gwahoddiad i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol GGC Castell-nedd Port Talbot.



CODI PROFFIL Y SECTOR

- Hybu prosiectau, digwyddiadau a swyddi gwag eich sefydliad yn rhad ac am ddim drwy gyfrwng sianelau cyfathrebu GGC Castell-nedd Port Talbot.
- Cyfleoedd i rannu straeon newyddion da
- Cefnogaeth i gofrestru eich sefydliad gydag Infoengine – y cyfeiriadur ar lein o wasanaethau gwirfoddol a chymunedol ledled Cymru.



MANTEISION YMARFEROL ERAILL

CASTELL-NEDD PORT TALBOT
CVS
NEATH PORT TALBOT

- Cyfraddau gostyngol ar gyfer llogi ein hystafelloedd cyfarfod a chynadledda hygyrch (hyd at 80 o bobl), gyda fideo-gynadledda, tafluniad, siartiau fflip a dolen glyw.
- Costau is ar gyfer gwasanaethau gweinyddol ymarferol, gan gynnwys llungopïo, lamineiddio, rhwymo a sganio.
- Gwasanaeth benthyca offer byrdymor gan gynnwys stondinau siartiau fflip, byrddau arddangos, taflunydd a sgrin, dolen sain ac offer PA.





MANYLION AELODAETH

Mae dau fath o aelodaeth:
Aelodaeth Lawn neu **Gefnogwyr**.

Mae Aelodaeth Lawn ar gyfer grwpiau:

- Sefydliadau Trydydd Sector / Nid-er-elw
- A gynhelir gan bwyllgor rheoli di-dâl
- A leolir yng Nghastell-nedd Port Talbot
- Sy'n ganghennau o sefydliadau cenedlaethol / rhanbarthol sy'n gweithredu'n lleol

Ffi Aelodaeth Flynyddol – Aelodau Llawn

Sefydliadau Trydydd Sector / Nid-er-elw	Am ddim

Rhaid i sefydliadau sy'n gwneud cais i fod yn Aelod Llawn ddarparu copi o'u dogfen lywodraethu e.e. Cyfansoddiad, Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu, Datganiad, neu ddogfen Gweithred Ymddiriedolaeth. Gallwn weithio gyda chi i ddatblygu un os nad oes gennych un eisoes.

Gall y canlynol ymaelodi fel cefnogwyr:

- Sefydliadau/Elusennau Cenedlaethol neu Ranbarthol y mae eu hardal sy'n elwa yn cynnwys Castell-nedd Port Talbot
- Unigolion
- Busnesau'r Sector Preifat
- Sefydliadau Statudol
- Town or Community Councils

Ffi Aelodaeth Flynyddol - Aelodau Cefnogol

Unigolion	**£10**
Sefydliadau Statudol (gan gynnwys Cynghorau Tref/Cymuned)	
Busnesau'r Sector Preifat	

Ar ôl i'ch cais am aelodaeth gael ei gymeradwyo, byddwch chi'n derbyn anfoneb i dalu eich ffi aelodaeth flynyddol.

GGC Castell-nedd Port Talbot

Ffurflen Gwneud Cais am Aelodaeth

Manylion y Sefydliad

Dywedwch wrthym pwy yw'r prif gyswllt ar gyfer y sefydliad

Enw'r sefydliad	
Enw Cyswllt	
Rôl yn y Sefydliad	
Cyfeiriad ar gyfer gohebu	
Côd post	
Rhif ffôn	
E-bost	

Dywedwch ragor wrthym am eich sefydliad

Math o sefydliad	**Ticiwch os gwelwch yn dda.**	**Rhif Cofrestru (os yw'n berthnasol)**
Grŵp Gwirfoddol Cyfansoddiadol		
Elusen Gofrestredig/Sefydliad Elusennol Corfforedig		
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant		
Cwmni Buddiannau Cymunedol		
Cymdeithas Gydweithredol / Cymdeithas Fuddiannau Cymunedol		
Clwb Chwaraeon Amatur Cymunedol		
Landlord Cymdeithasol		
Cyngor Cymuned/Tref		
Sefydliad Statudol		
Busnes Preifat		
Unigolyn		
Arall (nodwch beth)		

Gwybodaeth Gyffredinol

Dwedwch wrthym yn gryno beth mae eich sefydliad yn ei wneud, beth yw eich pwrpas elusennol?

Dewiswch hyd at 5 categori sy'n disgrifio eich pwrpas orau

Cyngor ac eiriol		Ariannu	
Lles anifeiliaid		Rhywedd	
Celfyddydau / Diwylliant / Treftadaeth		Iechyd a gofal cymdeithasol	
Cyngor am fudd-daliadau		Tai	
Sefydliadau llesiannol		Cyfryngwyr	
Gofalwyr		Cymorth rhyngwladol a chymorth brys	
Plant a Theuluoedd		Iechyd meddwl	
Cymuned		Cyflyrau niwrolegol	
Cyfiawnder cymunedol		Pobl hŷn	
Dementia		Crefydd	
Anabledd		Chwaraeon a hamdden	
Addysg a hyfforddiant		Rhywioldeb	
Cyflogaeth		Gwirfoddoli	
Amgylchedd		Iaith Gymraeg	
Lleiafrifoedd ethnig		Ieuenctid	
Cyngor ariannol		Arall (nodwch beth)	

Maes Gweithredu

Dewiswch y datganiad sy'n disgrifio eich maes gweithredu orau

Rydym wedi ein lleoli yng Nghastell-nedd Port Talbot	
Rydyn ni'n sefydliad cenedlaethol neu ranbarthol sy'n gweithredu yng Nghastell-nedd Port Talbot	
Rydyn ni'n sefydliad cenedlaethol neu ranbarthol y mae ein maes buddion yn cynnwys Castell-nedd Port Talbot	
Arall (nodwch beth)	

Cadw mewn Cyswllt

Yma yn GGC Castell-nedd Port Talbot, rydym wedi ymrwymo i leihau ein hôl troed carbon drwy ddefnyddio dulliau electronig o gyfathrebu ble bynnag y bo'n bosib.

Gwybodaeth Aelodaeth gyffredin

Fel aelod, byddwch yn cael y canlynol gennym yn awtomatig:

- E-fwletinau gyda diweddariadau pwysig ar newyddion a gwybodaeth sy'n berthnasol i'r sector a chymunedau Castell-nedd Port Talbot.
- Cewch eich hysbysu a'ch gwahodd i'n Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.
- Manylion am ddigwyddiadau, dathliadau a chyrsiau hyfforddi a drefnir gan CVS Castell-nedd Port Talbot.

Gallwch hefyd ddewis cael cyswllt drwy e-bost oddi wrthym sy'n cynnwys manylion prosiectau, cyfleoedd, digwyddiadau neu wasanaethau eraill a all fod o ddiddordeb i chi. Dewiswch bob un sy'n berthnasol o blith y canlynol:

Gwirfoddoli ☐

- Cyfleoedd i wirfoddoli lleol
- Cyngor a gwybodaeth am arfer dda
- Newidiadau i ganllawiau a deddfwriaeth

Llywodraethu Da ☐

- Cyngor a gwybodaeth ar arfer dda
- Newidiadau i ganllawiau a deddfwriaeth

Ariannu Cynaliadwy ☐

- Gwybodaeth am gyfleoedd ariannu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Manylion am ddigwyddiadau a gweithdai Cwrdd â'r Cyllidwr

Ymgysylltu a Dylanwadu ☐

- Mynnwch gyfle i ddweud eich dweud am gynlluniau a strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Gwahoddiad i ddigwyddiadau ymgysylltu ac ymgynghoriadau

Swyddi gwag yn y Sector ☐

- Cylchredu swyddi gwag lleol

Amrywiol ☐

- Digwyddiadau, hyfforddiant a chyfleoedd gan sefydliadau eraill sy'n aelodau

Cais i Ymaelodi

Rhowch wybod am ba fath o aelodaeth rydych chi'n ymgeisio

Aelodaeth Lawn*	Dewiswch	Cost
Sefydliadau Trydydd Sector / Nid-er-elw	☐	Am ddim
*Darparwch gopi o'ch Dogfen Lywodraethu os ydych chi'n ymgeisio am Aelodaeth Lawn os gwelwch yn dda		
Aelodaeth Gysylltio	**Dewiswch**	**Cost**
Unigolyn	☐	£10.00
Sefydliad Statudol (gan gynnwys Cynghorau Cymuned)	☐	
Cwmni neu Fusnes Preifat	☐	

Nodwch os gwelwch yn dda – anfonir anfoneb at eich sefydliad am gost yr aelodaeth flynyddol.

Telerau Aelodaeth

Drwy wneud cais i fod yn aelod o GGC Castell-nedd Port Talbot rydym ni'n cytuno i:

- Gefnogi gwaith ac amcanion GGC Castell-nedd Port Talbot
- Rhoi gwybod i GGC Castell-nedd Port Talbot am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a ddarparwyd

Nodwch os gwelwch yn dda bod Bwrdd Ymddiriedolwyr GGC Castell-nedd Port Talbot yn cadw'r hawl i wrthod aelodaeth.

Datganiad

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y manteision, manylion a thelerau aelodaeth ar gyfer GGC Castell-nedd Port Talbot, a bod yr holl wybodaeth a ddarparwyd yn gywir. Rwyf hefyd yn cadarnhau bod gennyf yr awdurdod priodol i lofnodi'r cais hwn ar ran y sefydliad a enwir uchod.

Enw	
Llofnod	
Dyddiad	

Anfonwch eich ffurflen gais wedi'i llenwi dros e-bost at info@nptcvs.org.uk os gwelwch yn dda, neu i Tŷ Margaret Thorne, 17 - 19 Stryd Alfred, Castell-nedd SA11 1EF

Hysbysiad Preifatrwydd

Mae Gwasanaeth Gwirfoddol Cymunedol Castell-nedd Port Talbot yn cymryd eich preifatrwydd o ddifri. Defnyddir yr wybodaeth a ddarparwch i ni er mwyn eich cefnogi wrth i chi gael mynediad i'n gwasanaethau. Fe'i defnyddir hefyd i gynhyrchu data monitro y gofynnir amdano gan ein harianwyr, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) a Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw wybodaeth bersonol a roesoch i ni yn cael ei storio ar system Rheoli Cysylltiadau â Chwsmeriaid, cyfrifiadur GGC Castell-nedd Port Talbot ac ar ffurflenni papur yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) ac yn unol â pholisi diogelu data GGC Castell-nedd Port Talbot, ein polisi cadw data a'n hysbysiad preifatrwydd. I gael mwy o wybodaeth ynghylch sut y defnyddir eich gwybodaeth, sut rydyn ni'n cynnal diogelwch eich gwybodaeth, a'ch hawliau chi i gael mynediad i'r wybodaeth sydd gennym amdanoch, cysylltwch os gwelwch yn dda â: GGC Castell-nedd Port Talbot ar 01639 631246 neu ewch i https://www.nptcvs.wales/privacy-policy-and-cookies/

For Office Use Only - Ar gyfer y swyddfa yn unig

Date Received						Approved			Rejected			
Membership No.						Date Group Notified						
Renewal Month	J	F	M	A	M	J	J	A	S	O	N	D

Staff Initials: